

Pryderon am safonau ac ansawdd mewn addysg uwch

Prifysgol Cymru a Finance and Business Training Ltd a'r London School of Business and Finance (UK) Ltd, Mehefin 2012

Cyflwyniad a chefnidir

Adroddiad yw hwn ar ymchwiliad i agweddau ar y berthynas flaenorol rhwng Prifysgol Cymru (y Brifysgol) a Finance and Business Training Ltd (FBT) a'r London School of Business and Finance (UK) Ltd (LSBF).¹ Disgrifir y sefydliad integredig sy'n cynnwys FBT ac LSBF yn yr adroddiad hwn fel FBT/LSBF (gweler Atodiad 1); terfynwyd y berthynas rhwng y Brifysgol ac FBT/LSBF ym mis Tachwedd 2011 ac mae'r berthynas honno yn dirwyn i ben ar hyn o bryd. Cynhaliwyd yr ymchwiliad, a oedd yn canolbwyntio ar gampws FBT yn Birmingham, yn sgil ymholiad cychwynnol i dri chais ffurfiol drwy gynllun Pryderon am safonau academiaidd ac ansawdd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (ASA) (dau ar gyfer FBT ac un ar gyfer LSBF) ac o leiaf chwe chwyn arall am gyrsiau, yng nghampws FBT yn Birmingham yn bennaf.

Oherwydd bod gan FBT/LSBF fframwaith academiaidd cyffredin wedi'i oruchwylio gan yr un Pennaeth a'r un academydd uwch, aeth yr ymchwiliad ati i archwilio a oedd y fframwaith hwnnw'n ddigonol o ran rheoli safonau ac ansawdd academiaidd. Prif ffocws yr ymchwiliad oedd campws Birmingham oedd yn cael ei weithredu'n ffurfiol gan yr endid cyfreithiol FBT. Derbyniwyd sylwadau gan FBT/LSBF ynghylch y dyraniad cywir o ran cyfrifoldeb rhwng y ddau endid cyfreithiol, LSBF ac FBT. Mae'r rhain wedi'u nodi yn Atodiad 2. Nid yw'r adroddiad hwn yn ceisio priodoli cyfrifoldeb o fewn y sefydliad FBT/LSBF a reolir ar y cyd.

Comisiynwyd yr ymchwiliad llawn gan Brif Weithredwr ASA dan y cynllun uchod, a'i gynnal rhwng Ionawr ac Ebrill 2012. Cynhaliwyd yr ymholiad gan Dr P Cardew a'r Athro M Davies (y tîm pryderon). Y swyddog achos oedd yn cydlynu'r ymchwiliad oedd yr Athro R Harris, y Cyfarwyddwr Cynorthwyol.

Briff yr adolygwyr oedd archwilio a rhoi adroddiad ar naw maes pryder posibl sef:

- a oedd FBT/LSBF wedi hysbysebu a recriwtio ar gyfer rhaglenni yr oedd ef yn honni oedd wedi cael eu dilysu gan y Brifysgol ond nad felly yr oedd hi
- a oedd FBT/LSBF wedi methu darparu rhaglenni yr oedd eisoes wedi recriwtio myfyrwyr ar eu cyfer
- a oedd y prosesau a'r gweithdrefnau a ddefnyddiwyd gan FBT/LSBF a'r Brifysgol i reoli cyfleoedd dysgu myfyrwyr yn briodol ac yn ddigonol o gofio faint o fyfyrwyr oedd wedi'u cofrestru arnynt
- a oedd FBT/LSBF a'r Brifysgol yn darparu adnoddau dysgu priodol i fyfyrwyr ar raglenni Prifysgol Cymru
- a oedd y trefniadau ar gyfer marcio gwaith myfyrwyr yn golygu bod myfyrwyr yn derbyn eu marciau mewn modd amserol

¹ Nodwyd y fframwaith sefydliadol yn Atodiad 1.

- a yw cyfradd llwyddiant myfyrwyr ar raglenni'r Brifysgol yn codi unrhyw bryderon ynghylch ansawdd y cyfleodd dysgu a ddarparwyd gan y Brifysgol ac FBT/LSBF
- a gynhaliwyd y gwaith o gymeradwyo'r ddarpariaeth yn Birmingham yn unol â gweithdrefnau'r Brifysgol
- sut mae'r Brifysgol ac FBT/LSBF wedi sicrhau eu hunain o gymwysterau a chymwyseddau'r staff addysgu
- a yw FBT/LSBF wedi gweithredu trefniadau priodol ar gyfer delio â chwynion.

Canfyddiadau

A oedd: (i) FBT/LSBF wedi hysbysebu a recriwtio ar gyfer rhaglenni yr oedd ef yn honni oedd wedi cael eu dilysu gan y Brifysgol ond nad felly yr oedd hi, a (ii) a oedd FBT/LSBF wedi methu darparu rhaglenni yr oedd eisoes wedi recriwtio myfyrwyr ar eu cyfer

1 Mae'r pryderon hyn yn troi yn bennaf ar gŵyn gan fyfyrwraig oedd wedi cael ei derbyn ar lwybr heb ei ddilysu oedd wedi'i restru ar wefan FBT/LSBF. Yn y lle cyntaf, dywedwyd wrth y fyfyrwraig nad oedd modd ad-dalu ei ffi, er bod ad-daliad wedi cael ei gynnig yn y diwedd ar yr amod ei bod yn llofnodi cytundeb setlo a rhyddhau yn tynnu unrhyw gwynion a wnaed yn ôl neu'n cadarnhau bod unrhyw gŵyn wedi'i datrys. Canfu'r adolygwyr (ac mae FBT/LSBF bellach yn cydnabod hyn) bod gwrthod ad-dalu'r ffi yn y lle cyntaf yn amhriodol. Ar raddfa ehangach, mae'r achos yn tynnu sylw at y ffaith y gallai myfyrwyr oedd â diddordeb mewn un llwybr penodol yn unig fod wedi talu am astudio'r pwnc ac wedi dechrau astudio modiwlau generig cyn i'r penderfyniad ynghylch ymarferoldeb masnachol y llwybr dan sylw gael ei wneud. Methodd gweithdrefnau oedd yn bodoli ar y pryd ag egluro'r sefyllfa gywir yn ddigon clir i sicrhau bod pobl yn deall hyn.

2 Yn ogystal, canfu'r tîm pryderon anghysondebau rhwng y Brifysgol ac FBT/LSBF o ran enwau rhaglenni: allan o'r 27 o raglenni a llwybrau oedd wedi'u datgan gan y Brifysgol (a 23 gan FBT/LSBF), dim ond 10 teitl oedd yn gyffredin i'r ddau. Felly, yn groes i'w honiad nad oedd anghysondeb o'r fath yn bodoli, roedd FBT/LSBF, trwy ddiffiniad, yn recriwtio ar gyfer rhaglenni nad oedd wedi cael eu dilysu. Gan fod FBT/LSBF hefyd wedi parhau i hysbysebu llwybr MBA nad oedd wedi ei gymeradwyo gydol y cyfnod craffu, mae'n dilyn felly ei fod wedi hysbysebu a gweithredu llwybrau lle nad oedd unrhyw gytundeb ffurfiol mewn grym ar eu cyfer, a'i bod yn ymddangos nad oedd y Brifysgol yn gallu ei rwystro rhag gwneud hynny.

3 I bob pwrpas roedd y Brifysgol hefyd wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb dros dderbyniadau i FBT/LSBF, ac, yn unol â hynny, roeddynt hwythau wedi prosesu ceisiadau ac wedi cofrestru myfyrwyr heb i gorff dilysu graffu ar y ceisiadau a'r myfyrwyr hynny. Roedd yr arfer hwn yn adlewyrchu'r ffaith bod gweithdrefn derbyniadau'r Brifysgol yng nghyswllt astudiaethau ôl-radd yn weithdrefn dau gam, lle'r oedd derbyn myfyrwyr (swyddogaeth a gadwyd gan y Brifysgol) yn digwydd peth amser ar ôl cofrestru (swyddogaeth a ddirprwywyd ganddi).

A oedd: (i) y prosesau a'r gweithdrefnau a ddefnyddiwyd gan FBT/LSBF a'r Brifysgol i reoli cyfleodd dysgu myfyrwyr yn briodol ac yn ddigonol o gofio faint o fyfyrwyr oedd wedi'u cofrestru arnynt, (ii) FBT/LSBF a'r Brifysgol yn darparu adnoddau dysgu priodol ar gyfer myfyrwyr ar raglenni Prifysgol Cymru, (iii) y trefniadau ar gyfer marcio gwaith myfyrwyr yn golygu bod myfyrwyr yn derbyn eu marciau mewn modd amserol, a (iv) a yw cyfradd llwyddiant myfyrwyr ar raglenni'r Brifysgol yn codi unrhyw bryderon ynghylch ansawdd y cyfleodd dysgu a ddarparwyd gan y Brifysgol ac FBT/LSBF

4 Gyda phedwar pwynt mynediad y flwyddyn, roedd FBT/LSBF wedi cofrestru 650 o fyfyrwyr ar raglenni'r Brifysgol yn ystod dwy flynedd gyntaf y trefniant cydweithio. Ar un adeg yn ystod y cyfnod hwn, roedd cyfradd dilyniant yr MBA wedi gostwng i 33 y cant yng nghyswllt derbyniad o 149 (ers hynny mae hyn wedi gwella i 84 y cant), ac roedd 54 y cant o fyfyrwyr wedi cwyno, naill ai fel unigolion neu fel grŵp.

5 Canfu'r tîm pryderon y canlynol: (i) Roedd FBT/LSBF wedi methu â darparu'r adnoddau dynol na'r adnoddau dysgu (roedd cyfleusterau llyfrgell y campws yn Birmingham yn arbennig o anfoddfaol) a oedd yn angenrheidiol i roi cyfle realistig i bob myfyriwr lwyddo; a (ii) nid oedd y Brifysgol wedi gorfodi cymal yn y contract oedd yn mynnu cytundeb blynyddol o ran niferoedd uchaf.

6 Er bod FBT/LSBF wedi gwneud gwelliannau sylweddol ers hyn, mewn rhai achosion ar gais y Brifysgol, dywedodd myfyrwyr wrth y tîm pryderon eu bod yn pryderu o hyd ynghylch y canlynol: cymhwysedd rhai aelodau o staff yn yr iaith Saesneg ac yn dechnegol, diffyg tryloywder ynghylch ffioedd sylfaenol, gwybodaeth anghywir, yn honedig, am gyfyngiadau gweithio visas, dryswch ynghylch argaeledd rhai llwybrau, bod rhai gwerslyfrau ddim ar gael, a bod defnyddioldeb y systemau gwerthuso a chynrychioli yn gyfyngedig. Cafwyd sylwadau cadarnhaol ynghylch y canlynol: gwelliannau o ran cymorth gyrfaoedd a lles, rôl y tîm cyswllt myfyrwyr, a chyflwyno cyrff ymgynghorol megis fforymau myfyrwyr a phwyllgorau cyswllt staff a myfyrwyr.

7 Mae'r tîm pryderon yn cadarnhau bod gwelliannau sylweddol yn y meysydd hyn - ac yn wir yn ansawdd y dysgu - wedi deillio o raglen gwelliannau FBT/LSBF. Serch hynny, er y canfuwyd bod FBT/LSBF wedi croesi'r trothwy o ran derbynioldeb, mae'r naratif a gyflwynir ganddo'n gyson - sef bod y tîm cyfredol wedi sicrhau bod methiannau rheolwyr blaenorol wedi eu cywiro'n sylweddol - yn dweud rhy ychydig am natur a maint yr heriau y mae'r sefydliad yn parhau i'w wynebu.

8 Canfu'r tîm pryderon y canlynol:

- mae'r cyfraddau dilyniant a nifer y cwynion a ddaeth i law gyfwerth â thystiolaeth fod FBT/LSBF wedi recriwtio mwy o fyfyrwyr nag y gellid ei gyfiawnhau ar sail ei sylfaen adnoddau
- roedd nifer y myfyrwyr wedi rhoi baich annioddefol ar adnoddau dynol a ffisegol
- mewn rhai achosion ni roddwyd unrhyw adborth adeiladol i fyfyrwyr, a phan roddwyd adborth, roedd ansawdd hwnnw'n anghyson
- nid oedd y broses derbyniadau (oedd wedi'i throsglwyddo i FBT/LSBF i raddau helaeth) wedi'i rheoli'n ddigon tynn, a oedd yn golygu bod nifer fawr o fyfyrwyr anaddas wedi cael eu derbyn
- oherwydd diffyg cyfathrebu rhwng y Brifysgol ac FBT/LSBF ar adegau cafwyd sawl mis o oedi rhwng FBT/LSBF yn cofrestru myfyrwyr a'r Brifysgol yn eu derbyn; felly, gan mai dim ond myfyrwyr oedd wedi cael eu derbyn oedd yn gallu defnyddio'r adnoddau llyfrgell ar-lein, roedd y myfyrwyr dan sylw heb adnodd dysgu a fyddai wedi gwneud iawn i ryw raddau am ddiffygion llyfrgell y campws
- am nifer o resymau, y ceir anghytundeb yn eu cylch ond nad ydynt yn adlewyrchu'n dda ar y naill ochr na'r llall, cafwyd oedi annerbyniol wrth farcio rhai traethodau (gweithgaredd y mae'r Brifysgol wedi'i neilltuo iddi'i hun)
- yn absenoldeb calendr academaidd gan FBT/LSBF (tan y flwyddyn academaidd 2011-12) roedd diffyg amserlen asesu glir a'r cynllunio gwael, oedd yn golygu bod rhai byrddau arholi wedi cael eu gohirio neu eu canslo, hefyd wedi achosi oedi hir yng nghyswllt dychwelyd marciau.

A oedd y gwaith o gymeradwyo'r ddarpariaeth yn Birmingham wedi'i gyflawni'n unol â gweithdrefnau'r Brifysgol

9 Er bod staff academiaidd uwch y Brifysgol yn cydnabod nad oeddynt wedi gweld y contract dilysu ac nad oeddynt yn deall union amodau'r contract hwnnw, yn sgil ymwybyddiaeth gynyddol y Brifysgol o'r broblem ag FBT/LSBF, sefydlwyd Adolygiad Interim, ym mis Ionawr 2011, ac, yn ddiweddarach, Tîm Mesurau Arbennig i fonitro ac i gynorthwyo â phrosesau rheoli academiaidd FBT/LSBF. Yn wyneb diffyg llwyddiant y mentrau hyn yn y pen draw, terfynwyd y cytundeb ym mis Tachwedd 2011.

10 Felly, mewn meysydd mor bwysig â derbyniadau, cymorth i fyfyrwyr, argaeledd adnoddau dysgu a marcio a dychwelyd gwaith oedd wedi cael ei asesu, mae'n dilyn bod y Brifysgol wedi sylweddoli ei bod, yn y diwedd, er gwaethaf ymdrech sylweddol i gywiro'r mater, wedi methu o ran arfer ei hawdurdod fel sefydliad dyfarnu graddau yng nghyswllt y cydweithrediad hwn. Fodd bynnag, roedd yr Is-ganghellor newydd wedi cadarnhau bod y Brifysgol yn deall ac yn derbyn ei rhwymedigaethau, yn awr ac yn y dyfodol, o safbwynt cyfreithiol a moesol, yng nghyswllt goruchwyllo'r ddarpariaeth o'i dyfarniadau wrth i'r trefniant cydweithredol hwn ddirwyn i ben, gan ymrwymo'r Brifysgol i ddarparu'r adnoddau sy'n angenrheidiol i sicrhau bod unrhyw fyfyrwr sy'n dymuno gwneud hynny yn cael y cyfle i ennill gradd Prifysgol Cymru.

Sut mae'r Brifysgol ac FBT/LSBF wedi sicrhau eu hunain o gymwysterau a chymwyseddau'r staff addysgu

11 Mae'n un o amodau'r contract bod pob aelod o staff sy'n dysgu rhaglenni'r Brifysgol yn cael ei gymeradwyo ymlaen llaw; serch hynny, er bod FBT/LSBF yn cyflwyno rhestr o staff i'r Brifysgol yn unol â'i rhwymedigaethau, anaml iawn - os o gwbl - y ceir ymateb gan y Brifysgol. Felly, er gwaethaf problemau yn y gorffennol â rhai aelodau o staff addysgu FBT/LSBF, a rheiny'n broblemau a oedd yn hysbys, cymerir yn ganiataol eu bod wedi cael eu cymeradwyo, yn hytrach na chael cadarnhad ffurfiol o hynny.

A yw FBT/LSBF wedi gweithredu trefniadau priodol ar gyfer delio â chwynion

12 Mae cryn gynydd wedi bod o safbwynt FBT/LSBF, yn aml gyda chefnogaeth y Brifysgol, ers yr adeg pan oedd 54 y cant o'r myfyrwyr yn cyflwyno cwynion. Mae'r weithdrefn gwyno bresennol, sydd mewn grym ers Gorffennaf 2011, yn addas i'r pwrpas ac yn cael ei chyfleu yn glir. Er bod myfyrwyr wedi cyflwyno nifer o sylwadau beirniadol i'r tîm pryderon, mae lefel y cwynion ffurfiol bellach ar lefel sy'n dderbyniol. Mae hyn yn deillio i raddau helaeth o'r ffaith bod tîm cyswllt myfyrwyr cymwys iawn FBT/LSBF yn mynd i'r afael â phryderon fel maent yn codi, gan leihau'r angen i ymdrin â nhw ar lefel fwy ffurfiol.

Casgliadau

13 Mae'r adroddiad yn nodi nifer o wendidau y gellir eu priodoli i amryw o ffactorau, gan gynnwys, ar ran FBT/LSBF, anaeddfedrwydd sefydliadol a dealltwriaeth annigonol o'r disgwyliadau ar ddarparwr addysg uwch yn y DU. Yn achos y Brifysgol, nid oedd wedi gweld y gwendidau hyn yn y dechrau ac nid oedd wedi goruchwyllo ei rhaglenni yn FBT/LSBF fel y dylai. O ganlyniad, mae pob parti yn gyfrifol am y problemau sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad hwn.

14 Yn fwy diweddar, mae FBT/LSBF wedi gweithredu ar argymhellion y Brifysgol ac wedi rhoi mesurau ar waith i gryfhau ei drefniadau rheoli ansawdd. Mae'r rhain yn cynnwys sicrhau safon dyfarniadau, gwella cyfleoedd dysgu ar gyfer myfyrwyr, gwrando ar lais

myfyrwyr, a chynnwys myfyrwyr yn y gwaith o sicrhau ansawdd. Yn benodol, yn ystod y cyfnod hwn, cyflwynwyd y canlynol: Polisi Gwybodaeth Gyhoeddus; Cynllun Datblygu Staff; sesiynau cynefino; proses adolygu perfformiad; calendr academaidd sy'n cynnwys patrymau darparu ac asesu; gweithdrefn gwynion wedi'i diweddarau; Cymdeithas Myfyrwyr sy'n weithredol ar draws y campws; gwell darpariaeth o ran gyrfaoedd, cwnsela a lles; seilwaith cyswllt myfyrwyr; gweithdrefn ar gyfer casglu adborth gan fyfyrwyr mewn modd systematig; gwell mynediad at adnoddau dysgu electronig; a chynrychiolaeth well i fyfyrwyr. Roedd myfyrwyr wedi nodi gwelliannau cymesur yn eu profiad.

Argymhellion

15 Dylai'r Brifysgol:

- gryfhau ei phrosesau monitro yng nghyswllt arferion cofrestru myfyrwyr sefydliadau y mae'n cydweithio â nhw
- cryfhau ei phrosesau monitro yng nghyswllt gwefannau sefydliadau y mae'n cydweithio â nhw
- sefydlu a gorfodi gofynion sylfaenol o ran darparu adnoddau llyfrgell ac adnoddau dysgu eraill yng nghampysau pob sefydliad y mae'n cydweithio ag ef
- sicrhau bod ei holl drefniadau cydweithio yn parhau i fod yn addas
- cymeradwyo, yn ffurfiol ac ymlaen llaw, pob aelod o staff a gyflogir i addysgu ei rhaglenni a mynegi ei phenderfyniadau mewn modd clir ac amserol i'r sefydliad cydweithredol dan sylw.

16 Dylai FBT/LSBF:

- sicrhau bod natur dros dro rhaglenni a manylion llawn costau sylfaenol rhaglenni yn cael eu hegluro'n glir mewn deunyddiau a gyhoeddir ac yn unigol i ddarparu fyfyrwyr
- sicrhau bod dyfarniadau a theitlau dyfarniadau a nodir ar ei wefan ac yn yr holl ddeunyddiau eraill a gyhoeddir ganddo yn gyson ac yn hollol gywir
- cryfhau ei oruchwyliaeth fel rheolwr yng nghyswllt gweithdrefnau derbyn.

17 Yn ogystal, dylai'r Brifysgol ac FBT/LSBF:

- cyn pen chwe wythnos ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn, llunio a chyflwyno cynllun gweithredu i ASA sy'n mynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn yr adroddiad hwn.

Atodiad 1: Fframwaith sefydliadol

Mae Prifysgol Cymru yn tanysgrifio i ASA. Mae Finance and Business Training Ltd (FBT) a'r London School of Business and Finance (UK) Ltd (LSBF) fel ei gilydd yn destun goruchwyliaeth addysgol gan ASA. Darparwyd gwybodaeth gefndir ar strwythur y sefydliad gan FBT/LSBF.

Mae gweithrediadau LSBF ac FBT wedi'u hintegreiddio ac maent yn rhannu'r un rheolaeth academiaidd a gweithredol. Nododd FBT/LSBF bod LSBF ac FBT wedi'u cofrestru fel noddwyr Haen 4 gyda'r UKBA am resymau hanesyddol a'u bod felly wedi cyflwyno dau gais am oruchwyliaeth addysgol. Mae'r cwmnïau'n rhannu strwythurau sicrhau ansawdd, rheoli a llywodraethu, ac mae'r berthynas â chyrrff dyfarnu a phrifysgolion partner hefyd yn cael ei rheoli'n ganolog, yn ogystal â gwasanaethau a rennir (gan gynnwys TG a TGCh, gwasanaethau gyrfa a lles myfyrwyr).

Atodiad 2: Sylwadau gan FBT/LSBF

1 Yng nghyswllt y ddarpariaeth yn Birmingham:

- FBT oedd wedi ymrwymo i'r contract â Phrifysgol Cymru
- FBT oedd wedi ymrwymo i'r contractau â myfyrwyr unigol
- FBT oedd wedi ymrwymo i'r contractau ag aelodau unigol o staff
- cyflwynwyd gwybodaeth gyhoeddus (gan gynnwys y wefan, llyfrynau, ffurflenni cais ac ati) i fyfyrwyr yn enw FBT.

Ac felly, i'r graddau bod yr ymchwiliad yn ymwneud â darpariaeth yn Birmingham, yr endid cywir o ran ymdrin â hyn yw FBT.

2 Yng nghyswllt darpariaeth ar-lein, darperir hwn yn enw LSBF. Mae'r grŵp hefyd yn rhannu adnoddau a systemau rheoli.